

## Tasg 1

# Blasus?!

1. Ar ddechrau'r darn, mae Chris yn defnyddio'r ansoddair 'neis' i gyfeirio at fwydydd gwahanol.

Mewn grŵp, gwnewch restr o ansoddeiriau gwell i ddisgrifio bwyd.  
Ar ôl dwy funud, stopiwch a chymharwch eich rhestri fel dosbarth.

Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hiraf, tybed?

2. Heb edrych yn ôl ar y darn, ydych chi'n gallu cofio rhai o'r bwydydd siocled sy'n cael eu henwi?

Gwnewch restr.

Mewn grŵp, trafodwch beth yw'ch barn chi am y bwydydd hyn.

Rhowch resymau dros eich barn bob tro.

3. Heb edrych yn ôl ar y darn, ydych chi'n cofio sut i wneud pizza melon dŵr?  
Ysgrifennwch y cyfarwyddiadau yn eich llyfrau. Yna, gwiriwch y cyfarwyddiadau.

4. Mae Lyn yn pwysleisio ei bod hi'n bosib paratoi bwyd sy'n cynnwys siocled ond sydd hefyd yn iach ac mae'n enwi rhai enghreifftiau.

a. Chwiliwch ar y we am enghraifft o fwyd sy'n cynnwys siocled (e.e. cacen, bisged, pwddin) ond sydd hefyd yn iach.

b. Ysgrifennwch y rysáit yn eich llyfrau.

Cofiwch: I ysgrifennu rysáit, rhaid i chi ddefnyddio cyfarwyddiadau, felly rhaid i chi ddefnyddio gorchmynion neu ffurfiau **rhaid**, e.e.

Pliciwch yr afalau.

Cymysgwch **b**opeth yn dda.

Rhaid i chi **b**licio'r afalau.

Rhaid i chi **g**ymysgu popeth yn dda.

Pam mae treigladau ar ôl "Cymysgwch"?

c. Eglurwch wrth eich partner sut mae paratoi'r bwyd ond peidiwch â'i enwi.  
Tybed ydy'ch partner chi'n gallu dyfalu beth ydyw?